**CYFLWYNIAD AR DWRISTIAETH GAN JONATHAN JONES, PRIF WEITHREDWR, BWRDD CROESO CYMRU, AR RAN FFORWM ECONOMAIDD DE ORLLEWIN CYMRU**

## RHANBARTH TWRISTIAETH DE ORLLEWIN CYMRU

Mae gan y rhanbarth gyfoeth o asedau naturiol, sy’n ffurfio llawer o’r apêl craidd fel cyrchfan dwristiaeth; arfordir gwych ac amrywiol o olygfeydd o harddwch dynodedig, cefn gwlad deniadol yn amrywio o rostir a dyffrynnoedd i wrychoedd a dolydd toreithiog a bywyd gwyllt amrywiol. Mae’r amgylchedd adeiledig yn ffurfio atyniad ategol i ymwelwyr, yr un mor amrywiol â’r amgylchedd naturiol; adeiladau hanesyddol a thirweddau, pentrefi tlws a threfi marchnad bychan gydag apêl cynhenid i ymwelwyr, cyrchfannau arfordirol a bywiogrwydd statws dinas forol Abertawe.

Mae consensws yn y rhanbarth ar yr angen i gadw cryfderau amgylcheddol y rhanbarth a defnydd cynaliadwy ei adnoddau. Cydbwysir cefnogaeth i ddatblygiad twristiaeth priodol gyda gofynion cadw ansawdd yr amgylchedd ac arolygu gweithgaredd twristiaeth i sicrhau yr effeithiau negyddol lleiaf posibl ar leoedd a chymunedau.

Cydnabyddir mai’r ffordd orau o weithredu egwyddor cynaliadwyedd yw drwy bartneriaethau ar draws sefydliadau a chynlluniau traws-sectoraidd a all yn gysylltu twristiaeth, diddordebau cymunedol a busnes ehangach, ffermio ac amaethyddiaeth a gweithgareddau cadwraeth amgylcheddol yn effeithlon.

Amcangyfrifir fod gweithgaredd yn gysylltiedig â thwristiaeth yn y rhanbarth yn darparu swyddi ar gyfer 20,500 o bobl. Mae twristiaeth yn ddiwydiant seiliedig ar bobl gyda’r gallu i feithrin sgiliau rheolaeth hyblyg, trosglwyddadwy ac entrepreneuraidd a diwylliant gwasanaeth ymysg yr ifanc a’r aeddfed fel ei gilydd.

## BUDDION TWRISTIAETH

Mae gan dwristiaeth hefyd fuddion cadarnhaol eraill, sy’n llai rhwydd ei meintoli na gwariant uniongyrchol a swyddi. Oherwydd fod gwariant twristiaid ac ymwelwyr diwrnod hamdden yn wasgaredig, gall yr effaith economaidd gael ei daenu ar draws llawer o fusnesau lleol a rhanbarthol bach/canolig. Hefyd, po fwyaf o gyflenwadau a gwasanaethau a gyrchir yn lleol gan weithredwyr twristiaeth, yna yr uchaf yw effaith gadarnhaol effaith ‘lluosydd’ arian yn cylchredeg yn yr economi lleol.

Mae twristiaeth yn cynorthwyo i amddiffyn cymunedau bach a gwledig drwy gefnogi cyfleusterau a gwasanaethau na fyddai yn goroesi efallai pe dibynnent ar ddefnydd lleol yn unig, megis siopau, trafnidiaeth wledig a chyfleusterau diwylliannol, celfyddydol a chwaraeon. Caiff amwynderau a chyfleusterau twristiaeth eu rhannu gyda phobl leol ac ychwanegant at ansawdd bywyd trigolion. Yn Ne Orllewin Cymru mae'r Grwpiau LEADER yn weithgar yn hyrwyddo'r cysylltiadau rhwng datblygiad twristiaeth ac angen cymunedol.

Mae canfyddiadau o ansawdd uchel o fywyd ynghyd â delwedd rhanbarthol deniadol, a ddatblygwyd i gyrraedd darpar ymwelwyr twristiaeth, yn gymorth i hyrwyddo mewnfuddsoddiad. Am yr holl resymau hyn mae'r diwydiant twristiaeth yn haeddu'r gefnogaeth gryfaf i ffynnu yn Ne Orllewin Cymru.

**Y SEFYLLFA BRESENNOL**

Mae De Orllewin Cymru yn cadw ei chyfran o dripiau twristiaeth, ond mae hyn yn cuddio newidiadau sylweddol yn strwythur y farchnad sydd, dros gyfnod, yn cael effeithiau sylweddol ar fusnesau yn yr ardal. Nid yw'r twf mewn tripiau i'r rhanbarth wedi ei gyfateb gan dwf cyffelyb mewn nosweithiau neu wariant, hynny yw mae tripiau byrrach yn cael eu gwneud gyda llai o fudd economaidd. Medrir teimlo'r holl broblemau yn gysylltiedig gyda rheoli nifer twristiaid (parcio ceir, effaith yr amgylchedd ac ati) ar yr amserau brig ac mae ganddynt oblygiadau adnodd cysylltiedig ond nid oes budd economaidd cyfatebol yn llifo i mewn.

Mae **gwyliau hir y DU** (yn arbennig mewn llety â gwasanaeth) yn gostwng, ond yn aros yn sylweddol, gan ffurfio 35% o'r holl dripiau. Rhaid i'r rhanbarth benderfynu ar y tactegau gorau i amddiffyn ei gyfran o'r farchnad. Gall yn rhwydd fod farchnadoedd penodol i'w targedu wedi'u rhannu yn ôl cylch-bywyd, arddull bywyd a demograffeg cymdeithasol yn ogystal â chymhellion gwyliau a tharddleoedd daearyddol. Mae'r dynesiad hwn gyda mwy o ffocws yn un y mae gweithredwyr da yn parhau i'w ddefnyddio i sicrhau llwyddiant busnes. Bydd llwyddiant y sector llety heb wasanaeth ansawdd uchel yn bwysig wrth gynnal y marchnadoedd hyn.

Mae **gwyliau byr y DU** yn faes twf sylweddol yn nhwristiaeth y DU ac yn ffurfio 22% o'r holl dripiau a dyma'r brif farchnad darged i lawer o weithredwyr. Bydd ansawdd, digwyddiadau, datblygu gweithgaredd, annog gwasgariad ymweld i fisoedd ysgwydd a marchnata creadigol yn ffactorau allweddol yn cyfrannu at gyrraedd y farchnad hon.

Mae **twristiaeth ymweliadau â chyfeillion a pherthnasau** wedi tyfu mewn pwyslais dros y blynyddoedd diweddar i 31%, a gall hyn, ynghyd â'r twf mewn ymwelwyr mewnol (h.y. ymwelwyr o'r tu fewn i Gymru), ynghyd â lefel uchel defnydd carafannau sefydlog (yn arbennig rhai sydd yn eiddo'r ymwelwyr eu hunain yn hytrach na chael eu gosod) gyfrif am dwf tripiau. Mae angen cydnabod y twf hwn mewn ymweliadau â chyfeillion a perthnasau a datblygu strategaethau i sicrhau fod gwariant yn y rhanbarth yn digwydd er budd atyniadau, digwyddiadau/ gweithgareddau a bwyta allan. Gall hyn yn rhwydd olygu y bydd angen adolygu'r ffordd y mae atyniadau yn datblygu eu cynnyrch ac yn hyrwyddo'u hunain a bod angen creadigrwydd (e.e. defnyddio digwyddiadau, rhaglenni gweithgaredd,

datblygu cynnyrch newydd, hyrwyddo i'r gymuned 'nawdd' gyda chymhellion).

**Twristiaeth fusnes** yw 6% o'r holl dripiau. Mae'r elfen hon o dwristiaeth yn swyddogaeth gweithgaredd economaidd rhanbarthol cyffredinol ynghyd â ffactorau helaeth sydd i raddau helaeth y tu allan i ddylanwad strategol y rhanbarth.

Mae **tymoroldeb** amlwg iawn mewn tripiau gwyliau, gyda 47% yn digwydd ym mis Gorffennaf a mis Awst o gymharu gyda 40% yng Nghymru gyfan a 30% yn y DU yn gyffredinol. Mae cyfran uwch o dripiau yn y cyfnod brig yn y rhanbarth nag yng Ngogledd Cymru, a all fod yn rhannol yn adlewyrchiad o safle cymharol wan De Orllewin Cymru yng nghyswllt gwyliau byr, sy'n tueddu i gael eu gwasgaru ar hyd y flwyddyn.

Mae'r rhanbarth yn denu bron i 25% o holl **ymweliadau dydd** hamdden Cymru. Bydd llawer o'r farchnad hon yn fewnol h.y. tripiau gan drigolion Cymru. Mae ymwelwyr dydd yn cyrraedd mewn ceir yn bennaf ac mae ganddynt effeithiau yr un mor sylweddol ar reolaeth ymwelwyr, yn arbennig mewn amgylcheddau sensitif, bregus ac ar adegau brig.

## STRATEGAETH DWRISTIAETH

Mae Fforwm Economaidd De Orllewin Cymru wedi comisiynu Strategaeth Dwristiaeth Rhanbarthol ar gyfer De Orllewin Cymru sydd â'r datganiad gweledigaeth canlynol:

*Bydd De Orllewin Cymru yn datblygu twristiaeth fel y gall ymwelwyr brofi'r amgylchedd ansawdd uchel a'r diwylliant neilltuol drwy gynnyrch a gwasanaethau a gyflwynir i safon cyson uchel gan fusnesau proffidiol yn y rhanbarth.*

Bydd twristiaeth yn llinyn allweddol yn strategaeth datblygu economaidd De Orllewin Cymru, gan greu mwy o gyfoeth a swyddi yn y rhanbarth tra'n parhau fel grym cadarnhaol i gynorthwyo gyda chadwraeth a gwella'r amgylchedd, hybu ansawdd bywyd y boblogaeth ranbarthol a statws y rhanbarth yng Nghymru, y DU a thu hwnt.

Y pedair egwyddor arweiniol allweddol sy'n sylfaen i'r strategaeth yw:-

- *Ansawdd*
- *Cynaliadwyedd*
- *Partneriaethau*
- *Gwasgariad Tymhorol*

### *Ansawdd*

Mae cydnabyddiaeth glir mai dim ond drwy gynnig y cynnyrch cywir o'r gwerth a'r ansawdd gofynnol i ateb disgwyliadau marchnadoedd y gall De Orllewin Cymru gystadlu'n llwyddiannus. Dengys

tystiolaeth fod ansawdd yn talu'i ffordd yn nhermau defnydd llety. Agweddau allweddol cynnyrch twristiaeth ansawdd uchel yw:

- Ansawdd y gwasanaethau a ddarperir i'r twristiaid, drwy staff cymwys ac uchel eu cymhelliant, o'r cyswllt marchnata cyntaf i drafodiad terfynol yr ymweliad

- Ansawdd yr amgylchedd; tirlun naturiol ac amaethyddol, yr arfordir a'r traethau (dyfarniadau traeth Baner Las a chynllun y Môr Gwyrdd) a threftadaeth adeiledig y dinasoedd, trefi a phentrefi yn y rhanbarth.

***Cynaliadwyedd***

Apêl amgylcheddol unigryw De Orllewin Cymru yw ei ased gryfaf. Mae angen yr ymdrechion cydlynus cryfaf posibl i sicrhau y caiff amgylchedd heddiw ei gadw a'i wella i genedlaethau o bobl leol ac ymwelwyr ei fwynhau yn y dyfodol. Mae hyn yr un mor wir ar gyfer diwylliant a hanes y rhanbarth a'i bobl.

Wrth i ymwelwyr - a darpar ymwelwyr - ddod yn gynyddol ymwybodol o'r amgylchedd, bydd yn gwneud synnwyr marchnata cadarn i fanteisio ar ymagwedd y rhanbarth at stiwardiaeth dda o'i asedau amgylcheddol fel agwedd sy'n ategu apêl amgylcheddol y rhanbarth. Bydd yn dystiolaeth pellach o hynodrwydd De Orllewin Cymru ac felly'n cynyddu gallu cystadleuol.

***Partneriaethau***

'Cydweithredu i Gystadlu' yw thema allweddol Strategaeth Twristiaeth Rhanbarthol De Orllewin Cymru. Dim ond drwy bartneriaethau y gall cyrff cyhoeddus a gweithredwyr masnach gydweithio i fwyhau cyfleoedd buddsoddiad, cyrchu ffynonellau cyllid a marchnata'r rhanbarth yn y ffordd fwyaf cost-effeithiol, blaengar a thargedig.

Mae eisoes gydnabyddiaeth yn y rhanbarth mai'r ffordd orau o weithredu egwyddor cynaliadwyedd yw drwy bartneriaethau ar draws sefydliadau a chynlluniau traws-sector, a all gysylltu twristiaeth, diddordebau cymunedol a busnes ehangach, amaethyddiaeth a gweithgareddau cadwraeth amgylcheddol yn effeithlon.

***Gwasgariad Tymhorol***

Mae canran uchel iawn o ymweliadau twristiaid yn nhymor brig trydydd chwarter y flwyddyn ac mae angen dilyn y nod o annog gwasgariad tymhorol ym mhob gweithgaredd datblygu a marchnata. Dylid rhaglennu digwyddiadau i osgoi rhaglen orlawn yn yr haf a chyflwyno rhesymau dros ymweld mewn tymor ysgwydd a thymor all-frig.

Dylid meithrin y tueddiad at gymryd ail wyliau byr i'r un diben, yn arbennig drwy hyrwyddo gwyliau

gweithgaredd a diddordeb arbennig, sy’n llai dibynnol ar y tywydd. Bydd hyd yn oed lwyddiant rhannol wrth wasgaru ymwelwyr o ran tymor yn gwella defnydd a hyfywdra cynnyrch. Bydd hefyd yn hyrwyddo cyfleoedd cyflogaeth amser llawnach a fydd fel canlyniad yn gwella cadw staff a chymhwyster a safonau gwasanaeth. Medrai gostwng pwysau nifer uchel o ymwelwyr mewn ardaloedd neilltuol o fregus fod yn fantais arall.

**GWEITHREDU**

Mae’r Strategaeth Twristiaeth Rhanbarthol yn cynnwys 3 cynllun gweithredu yn cwmpasu datblygu cynnyrch, marchnata, datblygu pobl a busnesau proffidiol. Mae Fforwm Economaidd De Orllewin Cymru wedi sefydlu Gweithgor Twristiaeth i ymgymryd â gweithrediad y Strategaeth. Mae’r grwp hwn yn cynnwys cynrychiolwyr Bwrdd Croeso Cymru, y pedwar Awdurdod Unedol – Abertawe, Castell-Nedd a Phort Talbot, Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin, Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro, Twristiaeth De a Gorllewin Cymru, Awdurdod Datblygu Cymru, TEC Gorllewin Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru. Sefydlwyd Grwp Twristiaeth Rhanbarthol yn ddiweddar hefyd i edrych ar y materion penodol sy’n wynebu’r diwydiant twristiaeth yn yr ardaloedd gwledig.

Caiff y diwydiant twristiaeth, drwy Fwrdd Croeso Cymru, hefyd ei gynrychioli ar y Grwp Datblygu Cynnyrch a’r Grwp Datblygu Gwledig a sefydlwyd gan Fforwm Economaidd De Orllewin Cymru.

Fforwm Economaidd De Orllewin Cymru yw’r unig Fforwm sydd â’i ardal yn gyfangwbl o fewn Ardal Amcan Un. Caiff gweithrediad y strategaeth ranbarthol ei hybu’n fawr gan adnoddau Amcan Un a ddarperir drwy’r Cynllun Gweithredu Rhanbarthol ar gyfer Twristiaeth sy’n cael ei baratoi gan Fwrdd Croeso Cymru a’r Cynlluniau Gweithredu Lleol sy’n cael eu paratoi gan yr Awdurdodau Unedol.